| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r :** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Mawrth 2014** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Cynrychiolaeth Aelodau ar Gyrff Allanol – Diweddariad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â threfniadau priodol ar gyfer Aelodau sy'n cynrychioli'r Cyngor ar Gyrff Allanol i adrodd yn ôl i'r Cyngor ynglŷn â'u gwaith gyda'r Cyrff Allanol.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei gyflawni o ran dull ar gyfer yr Aelodau ar Gyrff Allanol i adrodd yn ôl i'r Cyngor ynglŷn â gweithgareddau'r cyrff hynny.

## 3 Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn cytuno ar yr opsiynau i'w hargymell i'r Cyngor.

## 4 Manylion am yr Adroddiad

4.1 Mae'r Aelodau wedi ystyried adroddiad blaenorol ynglŷn â Phrotocol ar gyfer Aelodau ar Gyrff Allanol. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth bellach ynglŷn â llunio dull er mwyn i'r Aelodau a benodir gan y Cyngor i'w gynrychioli ar Gyrff Allanol adrodd yn ôl i'r Cyngor am eu gwaith a'r gweithgareddau gyda'r Cyrff Allanol.

4.2 Mae'r Cyrff Allanol y mae'r Cyngor yn penodi cynrychiolwyr ar eu cyfer yn niferus ac yn amrywiol. Yn ogystal â hyn, mae rolau'r Aelodau ar y cyrff hynny yn amrywio'n fawr. Mae rhai o'r Aelodau'n cael eu penodi'n Gyfarwyddwyr neu'n Ymddiriedolwyr, ac mae'r ddwy rôl yn cynnwys dyletswyddau a goblygiadau cyfreithiol i'r corff y penodwyd hwy iddynt. Mae disgrifiad llawn o'r rolau hyn wedi'i gynnwys yn y Protocol a Chanllawiau ar gyfer Aelodau Etholedig a benodwyd i Gyrff Allanol wedi'i atodi fel Atodiad 1.

4.3 Gofynnodd yr Aelodau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2013 am restr o Gyrff Allanol y penodwyd Aelodau iddynt yn ôl y categorïau canlynol:

- Cyrff sy’n gosod praesept y mae’r Cyngor yn ei gasglu
- Cyrff y mae'r Cyngor yn talu ffi tanysgrifio i fod yn aelodau
- Cyrff sy’n derbyn grant neu gymorth ariannol gan y Cyngor
- Yr holl Gyrff Allanol eraill

Mae’r rhestr wedi’i atodi fel Atodiad 2.

4.4 Wrth ystyried a ddylai’r Aelodau adrodd yn ôl i’r Cyngor ac ym mha ffordd bydd angen i’r Pwyllgor ystyried y materion canlynol:

- A oes angen yr un amlder a manylion yn yr adroddiadau ar gyfer yr holl Gyrff Allanol.
- A ddylai amlder a manylder yr adroddiadau ddibynnu ar lefel y risg i'r Cyngor e.e. ariannol, enw da
- Bydd gan gyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr ddyletswydd yn ôl cyfraith i’r cyrff y penodwyd hwy iddynt ac efallai y bydd ymrwymiad cyfrinachedd i’r corff hwnnw gan rwystro lefel y manylion y gellir eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad.
- Y fforwm y cyflwynir yr adroddiadau iddynt
- Mae posibilrwydd o orgyffwrdd a dyblygu gyda system Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ynglŷn â’u gweithgareddau fel Cynghorwyr.

4.5 Mae drafft templed adroddiad wedi’i atodi i’w ystyried gan yr Aelodau yn Atodiad 3.

4.6 Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y materion a osodwyd yn yr adroddiad hwn a nodi eu dewisiadau er mwyn gallu ymgynghori'n llawn gyda'r holl Aelodau etholedig.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Gall gwaith cyrff allanol gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a gall gwybodaeth reolaidd ar eu gweithgareddau gynorthwyo'r Cyngor wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd rhywfaint o amser staff ychwanegol i weinyddu'r broses adrodd. Dylai hyn gael ei gynnwys o fewn y gyllideb bresennol.

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Mae'r adroddiad hwn yn ddechrau ymgynghoriad gyda'r Aelodau. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Nid yw'n ymddangos bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn i gael unrhyw oblygiadau.

## 9 Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Y risg o beidio â derbyn adroddiadau rheolaidd yw bod yr Aelodau'n dal i gael eu penodi i gyrff allanol nad ydynt yn berthnasol i amcanion y Cyngor bellach ac yn cymryd amser yr Aelodau yn ddiangen.

## 10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972